Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Adroddiad gwrandawiad cyn penodi

## Y broses ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'r ymgeisydd a ffefrir

Mehefin 2023

www.senedd.cymru

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n dair adran: Adran gyntaf ragarweiniol, yr ail yn trafod y broses ar gyfer y penodiad penodol hwn a'r trydydd yn ystyried yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn").

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

**2.** Sefydlwyd y Comisiwn gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Gwnaethom gynnal gwaith craffu ar y ddeddf honno, fel pwyllgor. Y Comisiwn fydd y stiward cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.[1] Bydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16, ac am ansawdd yr addysg honno. Mae hyn yn golygu y bydd yn dwyn goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol ynghyd ar gyfer y canlynol:

- Addysg uwch
- Addysg bellach
- Chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol
- Prentisiaethau
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Ymchwil ac arloesi

**3.** Cyllideb flynyddol ddisgwyliedig y Comisiwn – sef tua £800m – fydd yr ail fwyaf, ar ôl cyllideb y GIG, a bydd yn un o'r cyllidebau uchaf a ddyrannwyd i gorff hyd braich yng Nghymru. Disgwylir i'r Comisiwn fod yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2024, a disgwylir y bydd ganddo tua 160 o aelodau staff.[2]

**4.** Mae Deddf 2022 yn nodi 11 o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu harfer ar draws ei holl swyddogaethau.

[1] Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022
[2] Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022



[3]

## Y rôl

**5.** Yn ôl y pecyn ymgeiswyr, diben y rôl yw darparu arweinyddiaeth strategol wrth sefydlu'r Comisiwn, a meddu ar rôl allweddol wrth ddatblygu a chyflawni gweledigaeth y Comisiwn newydd, gan ddatblygu diwylliant uchelgeisiol a galluogol ar gyfer y Comisiwn, ac ymhlith ei randdeiliaid. Mae disgrifiad llawn o'r rôl a manyleb y person ar gael yn Atodiadau A a B.

[3] Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022

# 2. Y broses recriwtio

## Gwrandawiadau cyn penodi

**6.** Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella'r gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi ai peidio.

**7.** Er nad yw'r swydd hon yn benodiad cyhoeddus fel y nodir yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd,[4] cafwyd ymrwymiad gan y Gweinidog Addysg ar Gymraeg, wrth graffu ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru ("y Bil") – fel yr oedd ar y pryd – y byddai "Pwyllgor perthnasol y Senedd" yn gallu cynnal gwrandawiadau rhagarweiniol ar gyfer y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.[5] Rydym eisoes wedi cynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer y Cadeirydd[6] a'r Dirprwy Gadeirydd.[7]

## Y broses ar gyfer y penodiad hwn

**8.** Cyn ein gwrandawiad cyn penodi, cawsom wybodaeth gan Lywodraeth Cymru. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys y canlynol:

- CV a datganiad personol Simon Pirotte.
- Briff yn crynhoi'r broses recriwtio ac yn nodi data amrywiaeth y 18 ymgeisydd yn y cam ymgeisio, y 6 ar y rhestr fer, a'r 4 a gafodd eu cyfweld.
- Copi o'r pecyn ymgeisydd a ddarparwyd i ymgeiswyr pan hysbysebwyd y swydd a'r hysbyseb.

[4] Mae'r cytundeb hwn yn nodi'r penodiadau cyhoeddus hynny a fydd yn destun gwrandawiad cyn penodi gan Bwyllgorau'r Senedd.
[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, adroddiad gwrandawiad cyn penodi, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Rhagfyr 2022
[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad gwrandawiad cyn penodi, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Rhagfyr 2022

- Y datganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi'r ymgeisydd a ffafrir.

**9.** Dosbarthwyd y dogfennau hyn i aelodau'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad.

**10.** Hysbysebwyd y swydd mewn nifer o gyhoeddiadau gan gynnwys y Times Higher Education Supplement, y Guardian, y Sunday Times ac ar Linked In. At hynny, cafodd ei hysbysebu ar wefan Odgers Berndtson (y cwmni chwilio penodedig am swyddogion gweithredol). Cafodd ei hysbysebu am bum wythnos.

**11.** Daeth 16 cais i law a chafwyd dau gais ychwanegol ar ôl y dyddiad cau oherwydd amgylchiadau personol esgusodol. Cynhaliodd Odgers Berndtson adroddiad cyn-sifftio 'di-enw' ar gyfer y panel asesu. Roeddent yn argymell y dylid gwahodd 6 ymgeisydd i gael 'sgwrs wrth y pentan' gyda Julie Lydon, Cadeirydd y Comisiwn, a James Owen, Cyfarwyddwr y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phrofion ar-lein a chyfweliadau 1:1 gyda seicolegydd. Tynnodd un o'r ymgeiswyr hyn ei gais yn ôl yn dilyn y prawf seicometrig a'r cyfweliad 1:1. Adolygodd y panel yr holl geisiadau a chytunwyd y dylai'r pum ymgeisydd arall fod yn rhan o'r broses.

**12.** Yn dilyn hynny, cymerodd y 5 ymgeisydd arall ran mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ymgysylltu ag aelodau'r panel, ac arwain trafodaeth ar bwnc a bennwyd ymlaen llaw. Ar ôl y digwyddiadau hyn, tynnodd ymgeisydd arall y cais yn ôl.

**13.** Cyfwelwyd y 4 ymgeisydd arall ym mis Chwefror /mis Mawrth. Roedd y cyfweliad yn cynnwys cyflwyniad wedi'i baratoi gan bob un o'r ymgeiswyr, gyda chwestiynau gan y panel i ddilyn. Yn dilyn y broses hon, nid allai'r argymell ymgeisydd i'w benodi.

**14.** Roedd papur Llywodraeth Cymru yn nodi bod y camau nesaf, wedyn, yn cael eu trafod rhwng y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a James Owen, Cyfarwyddwr y Comisiwn. Dywedodd y Gweinidog iddo "ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i mi yn ofalus" ac wedi penderfynu penodi'n uniongyrchol i'r rôl am gyfnod penodol o ddwy flynedd. Dywedodd, "wrth benderfynu ar fy hoff ymgeisydd, roeddwn yn ymwybodol o'r farn a fynegwyd" yn ystod ein gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer y Cadeirydd, a'r Dirprwy Gadeirydd. Yn benodol, y rhai yr oedd angen "sicrhau bod gan y Comisiwn brofiad sy'n cydnabod ehangder y sector yng Nghymru."[8]

**15.** Yn ystod y drafodaeth rhwng y Gweinidog a swyddog Llywodraeth Cymru, nodwyd yr ymgeisydd a ffefrir fel ymgeisydd addas i fynd ato. Cysylltodd Odgers Berndtson â'r ymgeisydd a ffefrir i ganfod a oedd ganddo ddiddordeb yn y rôl. Unwaith y cadarnhaodd yr ymgeisydd ei

[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Sefydlu'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Penodi'r Prif Swyddog Gweithredol, 19 Ebrill 2023

ddiddordeb yn y rôl, cysylltodd swyddog Llywodraeth Cymru, James Owen, yn uniongyrchol â'r ymgeisydd a ffefrir i drafod y rôl a'r penodiad posibl.

**16.** Yn dilyn hynny, cyfarfu'r ymgeisydd a ffefrir â dau o swyddogion Llywodraeth Cymru a Chadeirydd y Comisiwn i drafod y rôl. Nid cyfweliad oedd hwn ond rhoddodd gyfleoedd i drafod y rôl a rhai o'r heriau allweddol. Wedi hynny cyfarfu'r Gweinidog â'r ymgeisydd a ffefrir am 'sgwrs wrth y pentan", cyn i'r Gweinidog ei gyhoeddi fel yr ymgeisydd a ffefrir ganddo.[9]

**17.** Yn sgil amgylchiadau anarferol y broses hon, roeddem eisiau mwy o wybodaeth cyn y gwrandawiad. Roeddem yn bryderus ynghylch symud i benodiad uniongyrchol ar ôl proses recriwtio gyhoeddus aflwyddiannus, felly gofynnom am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg.[10] Roeddem am wybod y canlynol:

- Pa ran fu gan y Gweinidog yn y broses cyn i'r panel fethu ag argymell ymgeisydd;
- mwy o fanylder o ran pam yr oedd y Gweinidog wedi penderfynu symud i benodiad uniongyrchol;
- y broses a ddilynwyd er mwyn nodi ymgeiswyr posibl â chysylltu â nhw drwy'r llwybr hwn;
- a nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau neu a oedd yna'r potensial o wrthdaro buddiannau canfyddedig; ac
- a oedd yr ymgeisydd a ffefrir wedi datgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol, neu ymlyniad gwleidyddol.

**18.** Wrth ymateb, rhoddodd y Gweinidog fanylion pellach ar bob un o'n cwestiynau penodol. Dywedodd nad oedd wedi rhoi unrhyw arweiniad i'r panel ar addasrwydd unrhyw ymgeiswyr cyn i'r panel wneud argymhellion ffurfiol iddo. Ar ôl cael cyngor y panel na allent argymell ymgeisydd, fe nododd hyn, a phwysleisiodd bwysigrwydd bod gan y sawl a argymhellwyd yn y pen draw gymwysterau da o ran Addysg Bellach neu Ddysgu yn y Gwaith. Darparwyd papur briffio pellach gan swyddogion am opsiynau gan gynnwys y goblygiadau i'r Comisiwn o gael cyfnod byrrach i ymgymryd â gweithgaredd paratoadol, cyn iddo ddod yn weithredol.[11]

[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Sefydlu'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Penodi'r Prif Swyddog Gweithredol, 19 Ebrill 2023

[10] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 6 Gorffennaf 2022

[11] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Mai 2023

**19.** Ar y penderfyniad penodol i beidio ag ail-hysbysebu, dywedodd:

> *"Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn darparu bod y Comisiwn yn cynnwys Prif Weithredwr, Cadeirydd, Cadeirydd o'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (sydd hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd) ac o leiaf pedwar Aelod Bwrdd.*
>
> *I sicrhau trosglwyddo didrafferth a pharhad o ran darpariaeth cyn i'r Comisiwn ddod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024, mae angen i'r Comisiwn ymgymryd ag ystod o weithgareddau paratoi. Mae hyn yn cynnwys gwaith paratoi ar y system gofrestru; ymgynghori ar benodi Aelodau Cyswllt y Bwrdd; datblygu telerau ac amodau cyflogaeth a pholisïau AD cysylltiedig; ymgynghori ar fesurau'n ymwneud â throsglwyddo staff; cwblhau gwaith ar gynllunio sefydliadol (h.y. model gweithredu a strwythur); a dechrau unrhyw brosesau recriwtio angenrheidiol.*
>
> *Ni all y Comisiwn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn nes bod y penodiadau uchod yn cael eu gwneud. Felly, mae penodiad amserol y Prif Weithredwr yn hanfodol er mwyn i'r Comisiwn fod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024.*
>
> *Wrth wneud fy mhenderfyniad roeddwn hefyd o'r farn, gan fod proses benodi drylwyr ac agored newydd ddod i ben, na fyddai ail-hysbysebu'r swydd ar unwaith yn debygol o ddenu carfan wahanol o ymgeiswyr a fyddai'n addas i'w penodi. ."*[12]

**20.** Rhoddodd fwy o fanylion ar sut y cafodd yr ymgeiswyr posibl eu nodi, a phwy oedd yn rhan o'r broses hon.

## Ein barn ni

**21.** Mae gennym bryderon ers tro ynghylch y broses cyn penodi, a'r rôl gyfyngedig a chwaraeir gan Bwyllgorau'r Senedd yn y cyfryw brosesau. Rydym wedi datgan y rheini yn yr holl adroddiadau ar wrandawiadau cyn penodi a gyhoeddwyd gennym ar gyfer Comisiynydd Plant

[12] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Mai 2023

Cymru, sef[13] Cadeirydd[14] a Dirprwy Gadeirydd[15] y Comisiwn. At hynny, gwnaethom eu nodi yn ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i benodiadau cyhoeddus.[16]

**22.** Nodwn fod hwn yn benodiad gweinidogol, yn wahanol i'r penodiadau hynny sy'n rhai cyhoeddus. Ein rheswm dros gynnal y gwrandawiad hwn yw oherwydd i'r Gweinidog roi ymrwymiadau yn ystod y gwaith craffu deddfwriaethol ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (y Bil) fel yr oedd ar y pryd.

**23.** Fodd bynnag, ni waeth a yw hwn yn benodiad Gweinidogol neu gyhoeddus, dylem barhau i ddisgwyl proses gadarn sy'n deg ac yn dryloyw. Mae hwn yn benodiad pwysig iawn, gyda'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gyllideb o dros £800miliwn, cyllideb sy'n ail yn unig o ran maint i'r GIG yng Nghymru. At hynny, mae'n rôl heriol gan ei bod yn ceisio dod ag ystod amrywiol o ddarparwyr addysg ynghyd sydd wedi cael eu rheoleiddio yn flaenorol gan ystod o wahanol sefydliadau.

**24.** Hoffem ei gwneud yn glir nad yw ein sylwadau ar y broses yn adlewyrchu priodoldeb yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y rôl. Mae ein pryderon am y broses yn fater i Lywodraeth Cymru ac nid yr ymgeisydd a ffefrir. Gwyddom ei bod yn anarferol, yn y broses penodiadau cyhoeddus yr ydym fel arfer yn ymwneud â hi, i benodiad uniongyrchol gael ei wneud. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pa mor aml y maent yn digwydd gyda phenodiadau Gweinidogol a byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am hyn. Byddai'n destun pryder i ni pe bai hwn yn arfer rheolaidd ar gyfer penodiadau Gweinidogol, yn union fel y byddai pe bai hwn yn arfer rheolaidd, neu hyd yn oed lled-reolaidd, ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Nodwn – er gwaethaf ein pryderon am y broses – bod y ffaith inni wthio i gael gwybodaeth yn y parth cyhoeddus am symud i benodiad uniongyrchol yn bwysig o ran tryloywder, ac yn rhoi mwy o hyder i'r Senedd a'r cyhoedd yn y penodiad.

**25.** Rydym yn siomedig dros ben gyda'r broses a ddilynwyd ar gyfer y penodiad hwn. Mae hon yn swydd hynod bwysig, a fydd yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir amcanion uchelgeisiol y Comisiwn. Mae creu sefydliad newydd yn gyfnod tyngedfennol a bydd y penderfyniadau a

---

[13] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad gwrandawiad cyn penodi, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru, Rhagfyr 2021

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, adroddiad gwrandawiad cyn penodi, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Rhagfyr 2022

[15] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad gwrandawiad cyn penodi, yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Rhagfyr 2022

[16] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus, 26 Ionawr 2023

wneir nawr yn llywio pa mor llwyddiannus fydd y Comisiwn. Er ein bod yn deall yr amserlen heriol o ran sefydlu'r Comisiwn – a'r angen i recriwtio swyddi allweddol – mae pwysigrwydd ac arwyddocâd y rôl hon yn golygu ein bod o'r farn  y dylai proses recriwtio agored fod wedi cael ei hailgynnal. Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at bryderon rhanddeiliaid yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil ynghylch diogelu annibyniaeth y Comisiwn. Mae'n bwysig nad yw'r broses recriwtio ar gyfer y swydd hollbwysig hon yn bwrw amheuaeth ar hynny mewn unrhyw ffordd.

**26.** Byddwn yn parhau i fonitro'n agos sefydliad ac effeithiolrwydd y Comisiwn. Rydym yn bwriadu cynnal sesiynau craffu blynyddol gyda'r Comisiwn, a byddem yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gymryd rhan yn y sesiynau hynny. At hynny, byddwn yn parhau i graffu ar rôl Llywodraeth Cymru wrth sefydlu'r Comisiwn ac, ar ôl ei sefydlu, i ba raddau y mae'n sicrhau annibyniaeth y Comisiwn.

**27.** At hynny, byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn deall pa mor aml y mae penodiadau uniongyrchol yn digwydd ar gyfer penodiadau Gweinidogol. Mae'r broses honno'n un i'w hosgoi, ac rydym o'r farn i'r achos hwn ein gwneud yn ymwybodol o'r angen am fwy o dryloywder ynghylch y prosesau a ddilynir ar gyfer penodiadau Gweinidogol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn gwlad fach fel Cymru, lle mae perthnasoedd yn aml o fewn ac ar draws sectorau gwahanol.

**28.** Yn olaf, o ran y broses – ac nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchu ar yr ymgeisydd a ffefrir, a'i addasrwydd ar gyfer ei rôl – nodwn y cyferbyniad rhwng y broses recriwtio agored a'r penodiad uniongyrchol. Roedd y broses recriwtio agored yn ogystal â chyfweliad, hefyd yn cynnwys elfennau seicolegol a seicometrig, digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfweliad ffurfiol, gan gynnwys cyflwyniad a baratowyd ymlaen llaw. Mewn cyferbyniad, nid oedd cyfweliad ffurfiol, hyd yn oed, yn rhan o'r broses benodi ffurfiol. Ein gwrandawiad cyn penodi oedd y peth tebycaf i'r cyfryw gyfweliad. Mae gennym bryderon am y diffyg cyfweliad ffurfiol ar gyfer swydd mor bwysig, ac mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â'r camau lluosog yn y broses recriwtio agored ar ôl llunio rhestr fer.

**Casgliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ailddechrau'r broses recriwtio agored a'i hailfywiogi, er mwyn sicrhau y gallai ymgeisydd priodol fod wedi'i benodi drwy broses recriwtio agored. Dylid osgoi penodiadau uniongyrchol cyn belled ag y bo modd, ac yn arbennig ar gyfer rolau o hyd a lled yr un hon. Nid yw hyn yn adlewyrchu o gwbl ar gais yr ymgeisydd a ffefrir, yn hytrach, mae'n ymwneud yn unig â sicrhau uniondeb y broses recriwtio.

# 3. Yr ymgeisydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio yw: Simon Pirotte

**29.** Ar hyn o bryd mae Simon Pirotte yn Bennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Penybont. Mae wedi dal y swydd hon ers mis Mehefin 2013. Dechreuodd ei yrfa broffesiynol fel athro, ac mae wedi gweithio yn y sectorau uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru, Lloegr ac UDA dros y 30 mlynedd diwethaf. At hynny, mae wedi bod yn ddeiliad nifer o swyddi Bwrdd ar ystod o sefydliadau.

# 4. Y gwrandawiad cyn penodi

## Cyn y gwrandawiad

**30.** Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 8-9, cawsom rywfaint o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru cyn y gwrandawiad. At hynny, gwnaethom ofyn i Simon Pirotte lenwi holiadur byr cyn y gwrandawiad cyn penodi, i ddarparu fframwaith ar gyfer holi aelodau'r Pwyllgor. Mae'r cwestiynau hyn – ynghyd ag atebion Simon – wedi'u nodi yn Atodiad C.

## Y gwrandawiad

**31.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Yn adran flaenorol yr adroddiad rydym wedi gosod ein barn ar y broses. Nid yw'r safbwyntiau hyn ar y broses yn adlewyrchu mewn unrhyw ffordd ar ymgeisyddiaeth Simon.

**32.** Yn ystod y gwrandawiad – wnaeth bara tua 45 munud – gwnaethom ofyn amrywiaeth o gwestiynau i Simon Pirotte ynghylch y modd y mae'n bwriadu cyflawni rôl Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawiad ar gael ar-lein.[17]

**33.** Gwnaeth ein sgwrs gwmpasu'r canlynol:

- Ei ran yn y broses recriwtio;

[17] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Trawsgrifiad o gyfarfod 25 Mai 2023

- ei sgiliau a'i brofiad a'r modd y mae'r rheini'n cysylltu â gofynion y rôl hon;
- sut olwg fyddai ar lwyddiant;
- yr heriau sy'n wynebu'r sector, a'r Comisiwn yn benodol;
- gweithio gyda rhanddeiliaid, yng Nghymru a thu allan i Gymru;
- gweithio gyda phartneriaid allweddol, er enghraifft y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; a hefyd
- annibyniaeth y Comisiwn a'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru.

# 5. Barn y Pwyllgor

## Yr ymgeisydd

**Casgliad 2.** Ni welwn unrhyw reswm pam na ddylid cymeradwyo penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru – sef Simon Pirotte – ar gyfer rôl Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

**34.** Buom yn archwilio ystod eang o faterion gyda'r ymgeisydd a ffefrir, sydd i'w ddisgwyl pan fydd gan y Comisiwn gylch gwaith mor eang. Gwnaeth greu argraff arnom pan oedd yn sôn am yr angen i sefydlu perthynas effeithiol rhwng y rhanddeiliaid a'r sectorau sydd weithiau'n wahanol iawn i'w gilydd o fewn cylch gwaith y Comisiwn. At hynny, roedd gwreiddio diwylliant cadarnhaol yn gryfder ganddo. Myfyriodd ar ei brofiad blaenorol o arwain, a fyddai'n ei helpu i sefydlu diwylliant effeithiol o fewn y Comisiwn a pherthnasoedd effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r Comisiwn.

**35.** Daw'r ymgeisydd yn bennaf o gefndir addysg bellach ond mae hefyd wedi gweithio yn y sector ysgolion. Roedd gennym bryderon wrth gynnal y gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ynghylch sicrhau'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad ar lefel uwch-swyddogion y Comisiwn. Rydym yn croesawu, felly, bod yr ymgeisydd a ffefrir yn hanu o gefndir addysg bellach a bod ganddo brofiad helaeth ar draws cylch gorchwyl eang addysg bellach. Rydym yn parhau i fod o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y tair rôl hanfodol hyn gydbwysedd o wybodaeth, arbenigedd a phrofiad ar draws cylch gorchwyl y Comisiwn. Gobeithiwn y bydd hyn yn parhau wrth i bobl symud i mewn ac allan o rolau.

**36.** Yn ystod y sesiwn, buom yn archwilio gyda'r ymgeisydd a ffefrir sut y byddai'n ceisio llenwi'r bylchau yn ei wybodaeth a'i arbenigedd o rai elfennau o gylch gwaith y Comisiwn, megis

ymchwil a datblygu, a'r sector addysg uwch. Soniodd yr ymgeisydd a ffefrir am y modd y byddai’n gweithio’n agos gyda’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd, sydd â gwybodaeth a phrofiad helaeth yn y meysydd hyn.

**37.** Teimlwn y gallai'r ymgeisydd fod wedi rhoi mwy o fanylion mewn rhai o'i ymatebion, yn enwedig ar ei flaenoriaethau strategol personol ar gyfer y Comisiwn; sut y gallai'r Comisiwn geisio gwireddu uchelgeisiau ar gyfer ehangu prentisiaethau gradd; sut y gall y Comisiwn gefnogi a diogelu'r sector ymchwil yng Nghymru; a sut y bydd yn cydweithio â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at archwilio’r rhain ymhellach gyda’r ymgeisydd a ffefrir wrth iddo ymgymryd â’r swydd, ac wrth i ninnau ymgymryd â’n rôl graffu barhaus o waith y Comisiwn.

# Atodiad A: Cyfrifoldebau allweddol Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

- Darparu arweinyddiaeth gref ac ysbrydoledig, gweledigaeth, a chyfeiriad strategol i staff y Comisiwn, er wyn cyflawni'r lefelau uchaf o berfformiad a sicrhau diwylliant o gydweithio, cynhwysiant a gwelliant parhaus.

- Chwarae rôl arweiniol ar ddatblygu cynllun strategol y Comisiwn, gan roi ystyriaeth lawn i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector ôl-16 ac egwyddorion y Weledigaeth ar gyfer Newid o ran partneriaeth gymdeithasol a'r rhwymedigaethau statudol a osodir ar gyrff cyhoeddus.

- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn darparu sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil mwy ymgysylltiol, rhagorol a theg sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr, ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol.

- Datblygu a chynllunio'r strategaeth sefydliadol newydd i lunio strwythur y sefydliad newydd, ei systemau gweithredu, a'i ffyrdd o weithio yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

- Sicrhau bod y sefydliad newydd yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gan roi gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus ac – fel Swyddog Cyfrifyddu – gweithredu yn unol â thelerau memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu wrth reoli cyllid cyhoeddus Cymru.

- Arwain y sector i gynnig atebion arloesol o'r radd flaenaf i heriau'r dyfodol, gan osod dysgwyr wrth galon y system.

- Sefydlu diwylliant sefydliadol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan ddarparu amgylchedd ysgogol ar gyfer meddwl arloesol, a meithrin syniadau newydd gan alluogi trawsnewid gweledigaeth yn ganlyniadau.

- Datblygu a chynnal perthnasoedd o werth uchel gyda Gweinidogion ac adrannau allweddol Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg, gan ddarparu cyngor a gwybodaeth yn ôl yr angen.

- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth gan sicrhau ymagwedd gynhwysol ym mhob un o weithgareddau'r Comisiwn.

- Sicrhau bod swyddogaethau’n cael eu cyflawni, a chydymffurfio â dyletswyddau rheoleiddio cyllid addysg ac ymchwil yng Nghymru.
- Sicrhau bod trefniadau penodol o ran rheoli perfformiad – a threfniadau gweinyddol a llywodraethiant yn fwy eang – ar waith, er mwyn rhoi cynlluniau strategol a busnes y sefydliad ar waith yn effeithiol.
- Bod yn brif gynghorydd i Fwrdd y Comisiwn, a gweithio gyda nhw i gynnal annibyniaeth y Comisiwn wrth ystyried effeithiolrwydd y dulliau ariannu, darparu a monitro a ddefnyddir i gefnogi addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn gweithredu’n rhesymol ac yn deg, ac yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu.
- Gweithio gyda Bwrdd y Comisiwn i hyrwyddo ac arwain y gwaith o gyflawni ei swyddogaethau a’i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys llunio a datblygu strategaeth, a sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar waith o fewn Gweithrediaeth y sefydliad.
- Mewn partneriaeth â’r Cadeirydd, sicrhau bod strategaeth gyfathrebu effeithiol ar waith sy’n hyrwyddo’r Comisiwn yn effeithiol ac yn cynyddu hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid i’r eithaf.
- Adeiladu ar gryfderau ein system addysg bresennol er mwyn bodloni’r heriau a’r cyfleoedd sydd o’n blaenau’n well.

# Atodiad B: Manyleb y person, Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Rydym eisiau penodi unigolyn a all ddangos y canlynol:

- Sgiliau arwain trefniadol rhagorol gyda gallu profedig i gyflwyno rhaglen eang ei chyrhaeddiad o newid sefydliadol a diwylliannol, yn llwyddiannus.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun polisi addysg drydyddol ar lefelau Cymru, y DU a rhyngwladol, a'r hygrededd i weithredu ar y lefel uchaf yn yr amgylchedd hwn, gyda dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu'r Comisiwn.
- Gallu profedig i ysbrydoli ac ysgogi pobl ar bob lefel i fod ar eu gorau, gan gynnwys ymrwymiad amlwg i hyrwyddo a phrif ffrydio diwylliant o barch, amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb.
- Y gallu i reoli timau cyflawni polisi, technegol a gweithredol yn effeithiol.
- Hanes profedig o negodi partneriaethau llwyddiannus, gan ddangos gallu i gydweithio â rhanddeiliaid ar bob lefel mewn amgylcheddau cymhleth ac ansicr.
- Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd meithrin diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg a chydnabyddiaeth o'r ymddygiadau arweinyddiaeth personol sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol mewn awyrgylch Cymraeg-Saesneg.
- Profiad cryf mewn meysydd ariannol, rheoli pobl a llywodraethiant.
- Lefel uchel o wydnwch personol, brwdfrydedd ac ymrwymiad i gyflawni ar adegau o ansicrwydd.
- Y gallu i ddangos dealltwriaeth o ymrwymiadau rôl gyhoeddus, fel y'u diffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

## Dymunol

Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes gennych sgiliau o'r fath, dylech fod yn fodlon ymrwymo i ddysgu ar ôl cael eich penodi. Caiff hyfforddiant – gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth unigol – ei ddarparu.

# Atodiad B: Holiadur wedi'i lenwi a'i ddychwelyd gan Simon Pirotte cyn y gwrandawiad cyn penodi (Saesneg yn unig)

*What skills and experience make you well-suited for the role?*

My family experienced hardship when I was growing up and education was the lifeline I was given to move out of poverty. I had some teachers who helped keep me on the right path and made me believe in myself so that throughout my career in education, I have tried to give learners the same opportunities I was afforded.

I have worked across a range of education settings including schools, FE colleges and HEIs both in Wales and abroad.

I understand apprenticeship provision through Bridgend College's work with the B-wbl consortium which has delivered significant growth and excellent quality.

My daughters attended Welsh medium provision and I understand the value of Welsh medium education.

I have delivered Adult and Community Learning at Bridgend College and as part of the Bridgend Adult Learning Partnership.

I have a proven track record in delivering high quality provision as a practitioner and as a leader: Three consecutive Grade 1s in Estyn inspections of Performing Arts at Gorseinon College, Grade 1 for Hospitality and Catering at Swansea College and excellent judgements at Bridgend College whilst Principal and CEO.

I have experience as a senior leader and I have served on several Boards

I am passionate about the experience of learners and placing the needs of learners at the heart of decision making.

I am committed to Equity, Diversity and Inclusion and bringing people together in a positive culture.

I am excited about the opportunity presented by The Commission to join up thinking across all aspects of the tertiary landscape. I am prepared to ask difficult questions about the way we do things and I listen to people before making decisions.

*What do you think will be the key challenges that you will need to address as the new Commission is established?*

One of the key challenges will be bringing people from two different organisations and new appointees together as colleagues, ensuring that we make the most of their expertise but also looking at new ways of working to join up the thinking across sectors.

It will be important to maintain a balance between:

a. Making sure that there is a smooth transition between current structures and new ones

b. Looking forward to the future and the excitement of the art of the possible

Managing expectations will also be a challenge. Some Stakeholders may want the status quo whilst others might want change *today*! Developing a culture that avoids silo thinking and encourages broader thinking will be critical for the success of the Commission. This will call on brave leadership at all levels of organisations. The Leadership challenge will demand that leaders place learner need ahead of institutional need.

*How will you establish the Commission's relationship with Welsh Government and key stakeholders within the sector. We would particularly welcome your views on how you will do this in relation to the Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

The Minister for Education and Welsh Language has referred to the Commission as the national steward of tertiary education in Wales. It will have a unique role with responsibility for the planning, funding and regulation of Tertiary Education and Research in Wales and, as such, the Commission will have a pivotal role in drawing the sector together whilst recognising their distinctive characteristics and strengths. Building relationships with stakeholders across the tertiary education sector, as well as with the Welsh Government will be key to its success.

Colleagues who will be transferring into the Commission from HEFCW and the Welsh Government already have strong relationships with providers and organisations, so we are starting in a good place. As for my role in developing these relationships, I intend to build on my own professional networks and look forward to forming new relationships on taking up appointment.

Promoting tertiary education through the medium of Welsh, including encouraging demand, is one of the Commission's strategic duties and, of course, the Tertiary Education and Research Act requires Welsh Ministers to designate a person to advise the Commission on the discharge

of this strategic duty. The Minister has previously indicated that he anticipates it will be the Coleg that is designated for the purposes of this role.

The Coleg has extensive existing networks and a wealth of experience in developing and supporting Welsh-medium tertiary education, together with their experience of working with Welsh Government in a Welsh-medium related policy context. I anticipate that the Commission will benefit from its expertise and look forward to working collaboratively and strategically to build demand for, and encourage individuals to participate in, tertiary education through the medium of Welsh.

*How will you ensure the development of Welsh medium provision across the breadth of the Commission's remit?*

A core premise of the strategic duty in respect of Welsh medium education is that the Commission will move beyond a demand led model, and instead focus on actively building demand for Welsh medium education within the tertiary education sector, whilst also encouraging individuals to embrace the opportunities provided by participating in such education.

A key aspect here is that Welsh medium education cannot be considered within a bubble, it is not a standalone item to be considered apart from other aspects of the sector. Rather it is a cross cutting aspect of what the Commission will be delivering. And whilst it would be premature of me to set out plans for how we might achieve this, I'm looking forward to consulting with stakeholders on how we might take this forward.